# Gwersi a ddysgwyd wrth gyflymu recriwtio gwirfoddolwyr mewn argyfwng

Mehefin 2022

## Cyd-destun

Ym mis Mawrth 2021, comisiynodd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg waith dichonoldeb ar basport gwirfoddoli oedd yn cael eu defnyddio ar draws y rhanbarth.

Gwnaed y gwaith fel rhan o'r Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws (CRGV) gan Lywodraeth Cymru. Bu'r ymchwil o gymorth i ddangos bod yna awch i ddatblygu pasport gwirfoddoli ond y gall rhai agweddau ymarferol ei atal rhag cael ei wireddu.

Roedd y prif drafferthion a ddaeth i'r amlwg drwy'r ymchwil yn ymwneud â hyfforddiant ac yswiriant.

> "Yn ôl yr arfer, maen nhw wedi bod yn wych ac fe fyddem wedi bod ar goll hebddynt, yn enwedig ar adegau o fewnbwn uchel."
>
> Arweinydd Clinigol, Imiwneiddio Covid-19, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Fodd bynnag, bu i'r ymchwil fod o gymorth i ddangos:

Bod cynllun pasport gwirfoddoli, i bob pwrpas, yn lefel o gyflwyniad rhwng dau barti. Nid yw'n fwy cymhleth na hynny, er y bydd rhai yn ceisio'i gymhlethu. Er mwyn i'r cynllun fod yn llwyddiannus drwyddo draw, dyma'r neges y dylech ei chyflwyno, gan dderbyn nad yw'n ddatrysiad sy'n addas i bob sefydliad o ran sefyllfa recriwtio gwirfoddolwyr.

Yn Rhagfyr 2021, bu i don Omicron Covid-19 daro'r gymuned ac roedd angen hwb ar gyfer brechiadau atgyfnerthu drwy gydol mis Rhagfyr. Roedd angen staffio canolfannau brechu torfol ac roedd gan wirfoddolwyr ran allweddol yn hyn.


Roedd gwaith partneriaeth ynghylch gwirfoddoli yn gryfder cyn y gwaith rhanbarthol a wnaed gan y CRGV. Fodd bynnag, roedd y gwaith o gymorth i gyflymu'r perthnasoedd, ac roedd mwy o bobl mewn mwy o gyswllt â'i gilydd.

> "Roedd yn brofiad da ac fe wnes i ei fwynhau mewn gwirionedd. Roedd yna synnwyr cryf o frawdoliaeth yno hefyd."
>
> Gwirfoddolwr

Roedd pob partner oedd yn ymwneud â chyflymu'r broses recriwtio hon wedi ymwneud â'r ymchwil i Basport Gwirfoddoli ac felly'n ymwybodol o'r problemau posib y gallent eu hwynebu a'r ystyriaethau penodol oedd angen bod yn eu lle.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.



## Safbwynt gwirfoddolwr:

Roedd "A" wedi gwirfoddoli o'r blaen fel gwirfoddolwr cwrdd a chyfarch Gwasanaeth Gwirfoddoli i Gyngor Abertawe mewn clinig brechu meddyg teulu. Derbyniodd wybodaeth am y recriwtio cyflym yr oedd yn gymwys ar ei gyfer gan ei chydlynydd gwirfoddoli Gwasanaeth Gwirfoddoli i Gyngor.

"Roeddwn wedi gweld yr hysbyseb cenedlaethol am yr angen am wirfoddolwyr canolfannau brechu torfol dros y Nadolig, felly roeddwn eisoes wedi meddwl am sut i wneud cais. Felly pan ddaeth yr alwad gan y Gwasanaeth Gwirfoddoli i Gyngor roeddwn yn hapus i drio rhywbeth gwahanol i sefydliad arall. Derbyniais e-bost (gan yr Awdurdod Iechyd) am rota'r ganolfan frechu dorfol - allwch chi wneud y 3 shifft yma.

Cefais e-bost gyda mwy o fanylion ar ôl cytuno i wneud y shifftiau. Fe wnes i 2 shifft 4awr ac 1 x 3 awr. Roedd staff yn y ganolfan yn gwneud yr un swydd cwrdd a chyfarch, ac yn cadw llygad.

Roedd y ffaith bod rhywun yno yn ystod fy shifft gyntaf i ddangos imi yn bwysig iawn."

**Fyddech chi'n ei wneud eto?**

"Byddwn - os allaf wneud fe wnaf"

**Ydych chi'n meddwl y dylid cael rhestr o enwau pobl fel banc argyfwng?**

"Syniad da - fe hoffwn fod arni"

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Gwneud iddo ddigwydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf rhwng y partneriaid ble gwnaed cytundeb ynghylch y gwiriadau ac asesiadau risg a fyddai'n cael eu cynnal. Cytunwyd hefyd y byddent yn recriwtio ar gyfer gwirfoddolwyr Cwrdd a Chyfarch yn y canolfannau Brechu Torfol.

Rhoddwyd cytundeb llai manwl yn ei le rhwng NPTCVS, Gwasanaeth Gwirfoddoli i Gyngor a'r Bwrdd Iechyd y byddai gan yr holl wirfoddolwyr a gynigwyd ar gyfer y swydd yr elfennau canlynol yn eu lle:

- Gwiriadau gwirfoddoli priodol wedi eu cynnal – ffurflen gais, cyfweliad, dau eirda boddhaol, proses gynefino sefydliad eu hunain wedi ei gwblhau
- Disgwyliad y byddai proses gynefino sylfaenol wedi digwydd i gynnwys gwybodaeth am: GDPR/Diogelu Data /Cyfrinachedd, Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân, Diogelu, Rheoli Heintiau/mesurau lliniaru Covid, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (yn ddelfrydol dylent fod ag ymwybyddiaeth o greulondeb, trais ac ymddygiad ymosodol, dementia hefyd)
- Y byddai Staff/Gwirfoddolwyr yn gwisgo eu bathodyn adnabod â llun sefydliad eu hunain tra'n gwneud shifft - os nad oes ganddynt un yna dylent ddod â dull adnabod â llun gyda nhw i'w shifft i gael ei wirio gan aelod o staff cyn iddynt ddechrau

"Roedd y gwirfoddolwyr yn Theatr y Dywysoges Frenhinol yn hynod o gymwynasgar ac yn gaffaeliad gwirioneddol yn ystod cyfnodau prysur. Eu swydd oedd cwrdd a chyfarch ac yna cyfeirio pobl at y brechwr nesaf oedd ar gael. Doedd dim gwahaniaeth rhwng ein gwirfoddolwyr yno a'r rhai oedd wedi bod yn gwneud y swydd ers amser. Yn ôl yr arfer, roeddent yn wych ac fe fyddem wedi bod ar goll hebddynt, yn enwedig ar adegau o fewnbwn uchel."

Arweinydd Clinigol, Imiwneiddio Covid-19, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

"Roedd recriwtio gwirfoddolwyr "ar fenthyg" wedi gweithio'n dda yn y cyd-destun hwn oherwydd y berthynas oedd yn ei lle gyda phartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r ymddiriedaeth yn ei gilydd bod y gwirfoddolwyr dros dro oedd yn ymuno yn gallu camu i mewn i gynorthwyo'r canolfannau, eu bod eisoes wedi derbyn lefel benodol o hyfforddiant a bod y gwiriadau priodol yn eu lle, a bod ganddynt brofiad o wirfoddoli mewn lleoliadau tebyg.

"Roedd y cymorth a gawsom gan ein partneriaid yn wych, ni fyddem wedi gallu llenwi swyddi'r gwirfoddolwyr yn y Ganolfan Frechu Dorfol dros y pythefnos cyflwyno cyflym hebddynt."

"Mae'r trefniant gwaith hwn wedi dangos inni y gellid mabwysiadu'r model neu adeiladu arno yn y dyfodol i fod o gymorth gyda'n gweithgareddau neu mewn ymateb i argyfwng."

Rheolwr Gwasanaethau Gwirfoddoli,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnal unrhyw wiriadau i sicrhau bod hyn wedi digwydd, datganolwyd y cyfrifoldeb hwn i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Bu i'r Cyngor Gwirfoddol Sirol gydnabod eu rhwymedigaeth fel rhan o'r cytundeb gan dargedu rhai gwirfoddolwyr a chysylltu â nhw. Gan fod y cyfnod recriwtio am wirfoddolwyr a'u gosod yn eu swyddi yn un byr, roedd yn rhaid i'r rheolwyr y gwirfoddoli fod yn hyderus bod y gwirfoddolwyr yr oeddynt yn eu cynnig i'r Bwrdd iechyd wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf, ac yn gallu camu i'r swydd yn sydyn.



Unwaith y penderfynwyd ar y gwirfoddolwyr ar gyfer y swydd Cwrdd a Chyfarch, anfonwyd gwybodaeth ychwanegol atynt ynghylch y cyfle oedd yn cynnwys:

- Swydd ddisgrifiad i'r Gwirfoddolwyr Cwrdd a Chyfarch
- Arweiniad i'r swydd
- Llawlyfr Gwirfoddolwyr Covid-19
- Canllaw i wirfoddolwyr Covid-19

Roedd gan bob un o'r gwirfoddolwyr oedd yn ymwneud â'r cyfle brofiad blaenorol o wirfoddoli gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, roedd rhai wedi ymwneud â'r canolfannau Brechu Meddyg Teulu. Roedd y Bwrdd Iechyd yn hyderus y byddai gan y gwirfoddolwyr oedd yn ymuno â nhw'r gallu i gamu mewn a bod o gymorth i'r canolfannau.

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Gwersi Allweddol

Mae'r rhwystrau a ddaeth i'r amlwg yn y gwaith Pasport Gwirfoddoli yn parhau.

Fodd bynnag, bu i'r broses recriwtio gyflym oedd yn cefnogi'r canolfannau brechu torfol amlygu pwyntiau allweddol a allai wneud i rywbeth ymarferol weithio ledled y rhanbarth:

- **Defnyddiwyd y cytundeb rhwng sefydliadau fel cyflwyniad** – unwaith yr oedd gwirfoddolwr wedi cytuno i ymgymryd â swydd darparwyd llawlyfr, gwybodaeth am y swydd a'r gofynion penodol oedd eu hangen i gyflawni'r swydd gyda'r Bwrdd Iechyd. Diddymwyd rhai o'r gwiriadau ond fe gymrodd y Bwrdd Iechyd y cyfrifoldeb o sicrhau bod y gwirfoddolwyr wedi cael yr wybodaeth benodol yr oeddent eu hangen ar gyfer cyflawni'r swydd

- **Ystyriodd y cytundeb yr agweddau ymarferol** – cynhaliwyd trafodaethau ynghylch yswiriant a rheolaeth gan ystyried pwy oedd yn gyfrifol am beth yn ystod cyfnod y lleoliad gwaith. Ar gyfer y cytundeb hwn cytunwyd mai cyfrifoldeb y bwrdd iechyd oedd y gwirfoddolwyr a'u bod yn cael eu hyswirio a'u rheoli ganddynt hwy dros gyfnod y swydd

- **Roedd targedu penodol er mwyn cyrraedd gwirfoddolwyr addas**– i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn gwirfoddolwyr a fyddai'n cyflawni gofynion y cytundeb, sicrhaodd y Cyngor Gwirfoddol Sirol eu bod yn cyrraedd cronfa eithaf bach o wirfoddolwyr oedd wedi eu hyfforddi'n briodol, ac wedi cynnal gwiriadau priodol i'r math yma o swydd

- **Roedd y swydd wedi ei thargedu ac o fewn amser penodol** – roedd gan y swydd roedd angen recriwtio ar ei chyfer swyddogaeth benodol a fyddai mewn lle am gyfnod penodol ac roedd ei swyddogaeth yn eglur iawn. Golyga hyn nad oedd dim pryderon ynghylch pa bartner oedd yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant yn ei le, neu a oedd y person a gynigwyd yn addas i'r swydd

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Mae'r enghraifft hon o gyflymu recriwtio gwirfoddolwyr o gymorth i ddangos y potensial o wneud gwirfoddoli'n haws yn y dyfodol.

Cyflwynodd Covid-19 ystod o bobl i wirfoddoli, ond mae nifer o'r rhwystrau oedd yn eu hwynebu cyn y pandemig, amser ac ymrwymiadau eraill, yn bennaf, wedi dychwelyd - ond mae'r awch yn dal ganddynt i gymryd rhan mewn profiadau gwirfoddoli tymor byr untro neu dymor byr.

Mae'r enghraifft hon o gymorth i ddangos sut all cytundeb syml rhwng sefydliadau gynorthwyo i wneud i hyn ddigwydd yn gyflym. Mae'r profiad yn dangos hefyd werth cadw cronfa o wirfoddolwyr, sydd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol priodol, a all gael eu galw mewn sefyllfaoedd yn y dyfodol. Petai cytundeb rhanbarthol parhaus yn cael ei ddatblygu, byddai hyn yn cyflymu recriwtio gwirfoddolwyr ymhellach yn y dyfodol.

Am ragor o fanylion ynghylch Recriwtio Gwirfoddolwyr ym Mae Abertawe, cysylltwch â:

NPTCVS (Castell Nedd Port Talbot)
**info@nptcvs.org.uk** neu
SCVS (Abertawe):
**scvs@scvs.org.uk**

Darllenwch blog gan wirfoddolwr agefnogir gan gyflogwr/gwirfoddolwr/prif swyddog gwirfoddoli yn NPTCVS Gemma Richards ar **www.nptcvs.wales/making-volunteering-accessible**

**Gwirfoddolwyr a fu o gymorth i'r ganolfan frechu dorfol o ganlyniad i'r cytundeb, a gyflogwyd gan NPTCVS:**

"Roedd yn brofiad da ac fe wnes i ei fwynhau mewn gwirionedd. Roedd yna synnwyr cryf o frawdoliaeth yno hefyd."

"Roedd yn braf gallu cynorthwyo ac roeddent yn ei werthfawrogi."

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mai 2022, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

**Mae Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg** yn brosiect amlasiantaethol sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth, rheolaeth a chydlyniad gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ledled ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae wedi'i ariannu drwy Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

**Partneriaid y prosiect yw:**
Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Am ragor o wybodaeth ewch i:**
**www.westglamorgan.org.uk/wgvs**